Crynodeb o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig: Diwygio gwasanaethau offthalmig gofal sylfaenol: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

**Adran: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Gweinidog sy'n gyfrifol: Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Dyddiad dechrau: 24 Ebrill 2023**

**Am ragor o wybodaeth:**
**E-bost: HSS-PrimaryCareMailbox@llyw.cymru**
**Cyfeiriad: Yr Is-adran Gofal Sylfaenol - Cangen Polisi Awdioleg ac Offthalmig, Llywodraeth Cymru, 4ydd Llawr – Dwyrain, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: hyperddolen**

1. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio darpariaeth gwasanaethau offthalmig yng Nghymru ac mae'n ymgynghori ar gynigion i ddiweddaru'r rheoliadau presennol er mwyn gwella mynediad at wasanaethau iechyd llygaid mewn gwasanaethau sylfaenol, gwasanaethau yn y gymuned, a gwasanaethau llygaid mewn ysbytai. Datblygwyd y cynigion yn erbyn yr egwyddorion allweddol a amlinellir yng *Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024* Llywodraeth Cymru sy'n nodi ein nodau a'n hamcanion cydraddoldeb ar gyfer y pedair blynedd nesaf, ynghyd â'r prif gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hynny.

Yr hyn sy'n cyd-fynd â Nod Hirdymor 1: Yr amcan yw dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi:

*Byddwn yn cymryd camau i leihau'r risg o wynebu tlodi, gan wella canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.*

Mae gan Weinidogion Cymru bŵer o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 i sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud i helpu gyda chost profion golwg ac offer optegol ar gyfer categorïau penodol o bobl cymwys. Mae cymorth ar gael i gleifion cymwys, gan gynnwys plant a phobl ar fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, drwy ddarparu taleb optegol y gallant ei gyflwyno i unrhyw gyflenwr o'u dewis fel cyfraniad tuag at gost eu sbectol/lensys cyffwrdd. Yn gyfnewid am hyn, mae gwerth y talebau optegol yn cael ei ad-dalu i ymarferwyr / cyflenwyr offer optegol gan GIG Cymru.

Fodd bynnag, amlygodd asesiad o'r system bresennol ar gyfer talebau optegol bod annhegwch i gleifion ag anghenion presgripsiwn uwch, gan nad yw'r daleb bresennol a ddarperir i gleifion yn yr ystodau presgripsiwn uwch yn ddigon i dalu cost yr offeryn optegol ymhob achos. Mae hyn yn golygu bod cleifion sydd â'r angen mwyaf, yn ariannol ac yn glinigol, yn aml yn gorfod gwneud cyfraniadau ariannol sylweddol tuag at gost eu sbectol, er eu bod yn gymwys i gael cymorth ariannol.

Felly, rydym yn bwriadu gwneud gwelliannau i werthoedd talebau cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn cynrychioli cost safonol yr offeryn optegol yn fwy cywir ar draws pob ystod presgripsiwn.

I gefnogi'r newid hwn, cynigir cynnwys dyletswydd yn Rheoliadau drafft y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023, a fydd yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar ymarferwyr sy'n darparu profion golwg y GIG ac yn gwerthu sbectols, i sicrhau bod sbectol sylfaenol ar gael ar gyfer y bobl hynny sy'n gymwys i gael taleb optegol. Rhaid i'r sbectol sylfaenol fodloni manyleb presgripsiwn yr unigolyn a bod o fewn gwerth y daleb berthnasol y mae gan yr unigolyn hawl iddo. Bydd hyn yn sicrhau y bydd gan berson cymwys hawl i offeryn sylfaenol heb gost bellach, a thrwy hynny sicrhau tegwch mynediad ar draws pob ystod presgripsiwn, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hygyrch i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'r newidiadau arfaethedig i'r fframwaith rheoleiddio hefyd yn ymestyn cydraddoldeb ymhellach i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig drwy gywiro anghyfartaledd yn y rheoliadau presennol, a bydd y penderfyniad yn galluogi pobl ifanc o dan 18 oed sy'n gadael gofal neu sydd yng ngofal Awdurdod Lleol, i dderbyn taleb ar gyfer trwsio offeryn optegol neu gael un newydd (yn ychwanegol at y darpariaethau y maen nhw eisoes yn gymwys i'w cael, o dan y ddeddfwriaeth a'r trefniadau presennol), fel yr amlygir yn fanylach gyda'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Fel rhan o'r cynigion newydd, rydym yn bwriadu hefyd gwneud gwelliannau i'r meini prawf cymhwystra i gynnwys carcharorion ar absenoldeb awdurdodedig i fod yn gymwys i gael talebau mewn rhai amgylchiadau.

Ystyr "carcharor" yn y cyd-destun hwn yw person sy'n cael ei gadw mewn carchar, gan gynnwys sefydliad troseddwyr ifanc, ond sydd, ar adeg derbyn unrhyw wasanaeth offthalmig sylfaenol, ar absenoldeb awdurdodedig o'r carchar hwnnw. Gall carcharor gael caniatâd i adael carchar am gyfnodau byr tua diwedd ei ddedfryd ac mae ymestyn cymhwystra i garcharorion ar absenoldeb

awdurdodedig yn fodd i gychwyn y broses o integreiddio â gweddill cymdeithas agored, gan ymestyn a democrateiddio darpariaethau y mae gan aelodau ehangach o'r cyhoedd yr hawl i'w cael.

Ar hyn o bryd yng Nghymru nid oes meini prawf cymhwystra penodol i gynnwys carcharorion (ar absenoldeb awdurdodedig) am brawf golwg y GIG, taleb prawf golwg, taleb ar gyfer cyflenwi offeryn optegol, neu daleb i drwsio offeryn optegol neu gael un newydd yn lle'r hen un.

Cynigir cynnwys cymhwystra i rai carcharorion (y soniwyd amdanynt uchod ac sydd ar absenoldeb awdurdodedig) i dderbyn yr hawliau hyn. Mae'n bwysig nodi y bydd cael taleb ar gyfer trwsio offeryn optegol neu gael un newydd yn ei le yn amodol ar y ffaith a yw carcharor (ar absenoldeb awdurdodedig) yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a osodwyd ar gyfer pob unigolyn dros 16 oed. Mae'n rhaid bodloni'r ddau amod canlynol yn llawn cyn y darperir taleb tuag at gost trwsio neu gael offer newydd:

- byddai gennych hawl i gael taleb GIG ar gyfer sbectol neu lensys cyffwrdd.
- roedd colli'r sbectol neu ddifrod iddi o ganlyniad i salwch neu anabledd.

Mae Nod Hirdymor 3 Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020-2024 yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau'r canlynol:

*Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus datganoledig yng Nghymru*.

Yr hyn sy'n cyd-fynd â'r nod hwn yw Amcan Cydraddoldeb 3 sy'n datgan:

*Byddwn yn cymryd camau yn seiliedig ar wella canlyniadau cyfartal a dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag gwireddu eu potensial. Byddwn yn ymgorffori'r Model Cymdeithasol o Anabledd er mwyn creu polisïau a gwasanaethau gwell.*

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae'r Model hwn yn tynnu sylw at wahaniaeth pwysig rhwng 'nam' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl â namau yn cael eu hanablu gan rwystrau sy'n bodoli'n gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, sy'n gallu atal pobl anabl rhag cael eu cynnwys ymhob rhan o fywyd a rhag gallu cymryd rhan ymhob rhan o fywyd. Adlewyrchir y dull Model Cymdeithasol hwn wrth ddiwygio gwasanaethau offthalmig sylfaenol sy'n atgyfnerthu'n gryf y ffaith bod gan bobl anabl hawl cyfartal i'r safon iechyd cyraeddadwy uchaf ac i gyfleusterau ar gyfer trin salwch ac adsefydlu iechyd. Mae byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn gyfrifol am sicrhau nad oes unrhyw unigolyn yn cael ei amddifadu o'i hawl i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd ac yn ganolog i'r diwygio mae gwella mynediad at weithwyr proffesiynol yn y maes iechyd gofal llygaid ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau y mae gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG ddyletswydd i'w darparu.

I gyd fynd â'r flaenoriaeth uchod ac i sicrhau mynediad teg i'r cyhoedd ac yn benodol i bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys pobl anabl, o dan y telerau gwasanaeth a ddaw yn sgil y diwygio i wasanaethau offthalmig sylfaenol bydd yn ofynnol i gontractwyr y GIG gytuno ar oriau craidd ar gyfer gwasanaethau clinigol. Dyma'r oriau y bydd yr ystod lawn o lefelau gwasanaeth 1 a 2 ar gael a byddant yn cael eu cytuno rhwng y Bwrdd Iechyd Lleol a'r contractwr, ac fe'u hysbysebir i'r cyhoedd er mwyn codi ymwybyddiaeth. Mae hyn yn wahanol i'r trefniant presennol lle mae practisau yn gallu penderfynu ar lefel y cymorth clinigol craidd a gynigir yn ystod eu horiau agor. O ganlyniad, gellir gwrthod cleifion sy'n dod gyda phroblem llygaid acíwt ar hyn o bryd os nad yw'r practis yn gallu cynnig cymorth clinigol yn ystod ei oriau agor penodedig. Mae'r datblygiad hwn yn cyd-fynd ag ymrwymiad *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru i ddarparu gwell mynediad i weithwyr iechyd proffesiynol gan y bydd cleifion yn gwybod ble a phryd gallant gael mynediad at wasanaethau clinigol craidd priodol yn lleol gan gynnwys cyflyrau acíwt.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu mesurau diogelu, sy'n golygu bod gwahaniaethu neu

driniaeth annheg ar sail oedran, anabledd, hil a nodweddion gwarchodedig eraill fel y manylir isod (tabl 1), yn erbyn y gyfraith ym mron pob achos. Yn benodol, cynigir mai'r unig ffordd y gall Contractwr wrthod darparu gwasanaethau i berson cymwys o dan y Contract yw os oes ganddo sail resymol dros wneud hynny, ac ni all y sail honno ymwneud ag oed neu gyflwr offthalmig unigolyn nac unrhyw gyflwr meddygol cysylltiedig.

O ganlyniad, bydd gan gleifion hawl i'r gwasanaethau craidd canlynol yn ystod oriau craidd y cytunwyd arnynt:

- **Gofal iechyd llygaid cyfannol**
  - Gwasanaeth Lefel 1 - mae contractwyr optometreg yn darparu profion golwg ar hyn o bryd i'r rhai sy'n gymwys. Mae'r trefniant arfaethedig newydd yn ychwanegu elfennau hanfodol ar ben y prawf golwg cyfredol wrth iddo ehangu i fod yn ofal iechyd llygaid cyfannol, a fydd yn cynnwys cyngor ar atal a chyngor ar iechyd a lles, hunanofal cleifion, a datblygu cynlluniau unigol ar gyfer rheoli cleifion. Mae hyn yn golygu bod Optometreg yn cyd-fynd â Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol GIG Cymru, Deintyddiaeth a Fferylliaeth o ran y cyngor ehangach ar atal, iechyd a lles sy'n cael ei ddarparu mewn gofal sylfaenol.

- **Achrediad Gorfodol Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW)**
  - Gwasanaeth Lefel 2 - Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Gwasanaeth Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru sy'n darparu gofal llygaid arbenigol i'r cleifion hynny sydd â phroblem llygaid sydd angen sylw ar frys neu'r rheiny sydd â risg uwch o glefyd llygaid. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan Fyrddau Iechyd Lleol yn unol â Chyfarwyddiadau a Llawlyfrau Clinigol sy'n ymwneud â gwasanaethau EHEW. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr gofal llygaid hyfforddedig (optometryddion) ledled Cymru yn gallu darparu'r gwasanaeth GIG hwn am ddim yn y gymuned. Yn y dyfodol, bydd yn orfodol i bob contractwr ddangos gallu i ddarparu'r gwasanaeth hwn ledled Cymru, gan gynyddu'r safonau llinell sylfaen yn narpariaeth gofal iechyd llygaid.

Mae Nod Hirdymor 2 Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020-2024 wedi ymrwymo i sicrhau:

*Mesurau amddiffyn cydraddoldeb a hawliau dynol cryf a blaengar i bawb yng Nghymru.*

Yr hyn sy'n cyd-fynd â'r nod hwn yw Amcan Cydraddoldeb 2 sy'n datgan:

*Byddwn yn cymryd camau i nodi a defnyddio pob sbardun posibl i amddiffyn, atgyfnerthu a datblygu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru.*

I gefnogi'r blaenoriaethau uchod, rydym yn bwriadu gwneud darpariaethau yn y rheoliadau i ymestyn ymhellach mynediad i wasanaeth symudol yn y cartref ar gyfer cleifion sy'n gymwys ar gyfer profion golwg y GIG pan fo eu hamgylchiadau'n ei wneud yn amhosibl, yn afresymol, neu fel arall yn anymarferol iddynt dderbyn gofal mewn practis optometreg.

Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau symudol y GIG wedi'u cyfyngu i ddarparu prawf golwg a dim ond mewn nifer cyfyngedig o leoliadau y cânt eu darparu fel canolfan ddydd, canolfan breswyl neu gartref claf lle nad yw'r claf yn gallu gadael y cartref hwnnw ar ei ben ei hun oherwydd salwch neu anabledd corfforol neu feddyliol. Yn ogystal, mae'n ofynnol i gontractwyr roi rhybudd i Fyrddau Iechyd Lleol o'u bwriad i ddarparu gwasanaethau symudol i gleifion yn ardal eu bwrdd iechyd.

Cynigir y dylid ei gwneud yn bosibl i ddarparu gwasanaethau lefel 1 a 2 trwy gyfrwng gwasanaethau symudol. Bydd hyn yn sicrhau bod ymarfer o safon sylfaenol ar gael i gleifion sy'n gymwys i gael gwasanaethau symudol yng Nghymru, gan sicrhau bod yr holl ymarferwyr sy'n darparu'r gwasanaeth yn cynnig gwasanaethau teg i gleifion, ni waeth be fo'u lleoliad.

Cynigiwn ymestyn darpariaeth gwasanaethau symudol i gynnwys ystod ehangach o gleifion a fyddai'n cael anhawster cael gafael ar wasanaethau lefel 1 a 2 mewn "safle cofrestredig" (hy y lleoliad

lle y byddai'r ymarferydd yn darparu gwasanaethau fel rheol, practis optegydd fel arfer) a thrwy ei gwneud yn bosibl i wasanaethau symudol gael eu darparu mewn lle nad yw'n "safle cofrestredig". Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, fod modd darparu gwasanaethau symudol i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Arbennig yng Nghymru yn yr ysgol honno.

Er mwyn sicrhau y bydd modd i gleifion gael mynediad at yr holl wasanaethau mewn modd amserol, bwriadwn gael gwared â'r gofynion rhybudd ymlaen llaw ar gyfer gwasanaethau symudol i gleifion cymwys. Fodd bynnag, bydd yn parhau i fod yn ofynnol i gontractiwr sydd am ddarparu gwasanaethau symudol gadarnhau gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol ei fod yn dymuno gwneud hynny wrth wneud cais i gael ei gynnwys ar ei restr offthalmig.

Mae'r diwygio arfaethedig yn hyrwyddo cydraddoldeb ymhellach hefyd drwy ymestyn darpariaeth gofal llygaid yn y gymuned, yn agosach at gartrefi pobl i gyd-fynd â Nod Hirdymor 6 Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2020-2024 sy'n eirioli o blaid:

*Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gynhwysol.*

Yr hyn sy'n cyd-fynd â'r nod hwn yw Amcan Cydraddoldeb 6 sy'n cadarnhau ein hymrwymiad i:

*adeiladu ar ein polisïau a'n hymyriadau presennol a[c yn] datblygu fframwaith monitro i fesur cynnydd tuag at gydlyniad cymunedol a meithrin cysylltiadau da.*

O dan y trefniadau newydd bydd yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol sicrhau eu bod yn darparu lefelau uwch o wasanaethau clinigol o fewn eu ffiniau ar lefel gofal sylfaenol er mwyn sicrhau bod gan gymunedau lleol fynediad cyfartal at well gwasanaethau clinigol. Mae hyn yn cefnogi Nod Hirdymor 7 hefyd lle "*gall pawb yng Nghymru gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol, bywyd cyhoeddus a bywyd pob dydd."*

Ni fydd yn orfodol i bob practis offthalmig ddarparu'r gwasanaethau clinigol gwell hyn, er hynny, bydd yn orfodol i bob Bwrdd Iechyd Lleol ddarparu'r gwasanaethau canlynol ar lefel clwstwr/ardal yn eu hardaloedd Bwrdd Iechyd Lleol priodol.

- Gwasanaeth Lefel 3 - Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth drwy ddarparu cymhorthion golwg gwan, drwy gyfeirio pobl at wasanaethau eraill a thrwy gynnig gwybodaeth am fyw o ddydd i ddydd a chyflyrau llygaid. Mae cyflwyno Optometryddion Gofal Sylfaenol, cynnal Archwiliadau deuol Iechyd Llygaid Cymru ac achrediad Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru, wrth wneud Tystysgrifau Nam ar y Golwg i gleifion sy'n byw yng Nghymru, yn ogystal â'r broses a ddarperir ar hyn o bryd mewn gwasanaethau llygaid mewn ysbytai yn y maes gofal eilaidd, yn elfen ychwanegol arall i'r lefel hon o wasanaeth gofal sylfaenol.

  Mae gormod o bobl yn aros misoedd lawer i gael mynediad at wasanaeth llygaid yr ysbyty i gael Tystysgrif Nam ar y Golwg, a gwrthodir budd-daliadau a chymorth i rai wrth iddynt aros. Yn ogystal, mae'r bobl hyn yn defnyddio slotiau apwyntiadau ar hyn o bryd y gellid eu defnyddio ar gyfer pobl sydd angen mewnbwn offthalmolegydd arbenigol.

- Gwasanaeth Lefel 4 - Bydd Cleifion a fyddai'n flaenorol wedi cael eu cyfeirio o optometreg gofal sylfaenol i wasanaethau llygaid mewn ysbytai ar gyfer asesiad meddygol o'r retina a glawcoma, yn cael eu cyfeirio at optometrydd gyda chymwysterau uwch i'w hasesu ymhellach, o fewn yr ardal clwstwr gofal sylfaenol. Bydd hyn yn cyflymu'n sylweddol ac yn gwella mynediad i gleifion, a fydd yn derbyn eu profion diagnostig ym maes gofal sylfaenol. Y bwriad yw cynyddu'r gallu yn y gwasanaethau llygaid mewn ysbytai gan alluogi cleifion sydd â'r risg uchaf o golli golwg i gael eu gweld o fewn y dyddiadau targed a benodwyd gan glinigydd.

- Gwasanaeth Lefel 5 - Mae'r datblygiad hwn yn cynnwys darparu "Gwasanaeth Llygaid Brys" ym maes gofal sylfaenol gyda disgwyliad o lefel uwch o reoli, rhoi triniaeth ac atal atgyfeiriadau ymlaen. Bydd y gallu i ganfod ac yna rhagnodi'n briodol ar gyfer cleifion yn y gymuned unwaith eto

yn lleihau'r galw i ddarparu'r gwasanaethau hyn o fewn gwasanaethau llygaid mewn ysbytai a gwasanaethau meddygon teulu.

I gefnogi anghenion gofal llygaid cymunedau hyd yn oed ymhellach, cynigir gosod dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol i gynnal asesiad o anghenion iechyd llygaid bob tair blynedd er mwyn canfod anghenion y cyhoedd o ran darpariaeth gofal llygaid ym maes gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Bydd lefelau uwch o wasanaethau clinigol a nodwyd gan yr asesiadau o anghenion gofal llygaid yn lleol yn cael eu darparu ar lefel clwstwr fel y manylir uchod trwy ddarparu dyletswydd i gryfhau'r ddarpariaeth hon. Gyda'i gilydd, bydd yr asesiad o anghenion ynghyd â'r gwaith o gyflawni o ran ôl troed clwstwr yn sicrhau y bydd anghenion y boblogaeth leol yn cael eu hystyried yn llawn ac yn cael eu cyflawni.

**Tabl 1 - Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**:

**A fyddech cystal â chwblhau'r adran nesaf i ddangos sut gallai'r polisi / penderfyniad / ymarfer hwn gael effaith (cadarnhaol neu negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.**

| Nodwedd neu grŵp gwarchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut fyddwch yn lliniaru'r Effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oedran | Cadarnhaol - yn cyflymu mynediad at ofal clinigol o fewn lleoliad gofal sylfaenol - gan arbed pwysau ar ofal eilaidd.<br><br>Bydd mwy o fynediad at wasanaethau optometryddion o fudd i bobl o bob oed. | Dadansoddiad yn:<br><br>Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.<br><br>Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026. | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |
| Anabledd | Cadarnhaol - Mae hyrwyddo a sefydlu'r Model Cymdeithasol o Anabledd, yn Llywodraeth Cymru ac mewn cyrff cyhoeddus ledled Cymru, yn un o flaenoriaethau cadarn Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r diwygio cyffredinol yn cydnabod pwysigrwydd mynediad at wasanaethau gofal llygaid yn y gymuned ac yn agos i'r cartref ac mae gan bob gwasanaeth dan gontract y GIG rwymedigaeth i ddarparu gwasanaethau mewn cyfleusterau nad ydynt yn achosi anawsterau mynediad i bobl sydd â nam. | Dadansoddiad yn:<br><br>Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.<br><br>Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026.<br><br>Model Cymdeithasol o Anabledd. | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | At hynny, mae'r diwygio yn atgyfnerthu'n gryf y ffaith bod gan bobl anabl hawl cyfartal i'r safon iechyd cyraeddadwy uchaf ac i gyfleusterau trin salwch ac adsefydlu iechyd.<br><br>Mae byrddau iechyd lleol a'r GIG yn gyfrifol am sicrhau nad oes unrhyw unigolyn yn cael ei amddifadu o'i hawl i gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd o'r fath.<br><br>Yn ogystal, mae darpariaeth wedi'i chynnwys i sicrhau mynediad i wasanaeth symudol yn y cartref ar gyfer cleifion cymwys Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol y GIG y mae eu hamgylchiadau'n ei gwneud yn amhosibl, yn afresymol, neu fel arall yn anymarferol iddynt dderbyn gofal mewn practis optometreg. | | |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl Drawsryweddol) | Bwriad y strategaeth hon yw ei bod yr un mor berthnasol i bawb ac felly ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai'n cael unrhyw effaith benodol ar bobl drawsryweddol. | Dadansoddiad yn:<br><br>Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Asesiad o’r Effaith ar Iechyd.<br><br>Cymru Iachach:<br>ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026. | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Cadarnhaol - yn cyflymu mynediad at | Dadansoddiad yn: | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ofal clinigol o fewn lleoliad gofal sylfaenol.<br><br>Bydd y diwygio yn sicrhau bod practisau yn gallu ymateb yn brydlon i bob claf, gan gynnwys plant.<br><br>Mae 'system deg sy'n sicrhau canlyniadau iechyd cyfartal i bawb' yn rhan o weledigaeth Cymru Iachach.<br><br>Mae iechyd llygaid ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn cael ei gyflawni gan:<br><br>• Rhaglen Ymwelwyr Iechyd a Meddygon Teulu: 0-18 mis.<br>• Rhaglen Genedlaethol Sgrinio Plant: 4-5 mlynedd. | Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.<br><br>Cymru Iachach:<br>ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026. | byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |
| Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | Cadarnhaol – yn cyflymu mynediad at ofal clinigol o fewn lleoliad gofal sylfaenol – gan fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd amlwg a brofir gan rai Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. | Dadansoddiad yn:<br><br>Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.<br><br>Cymru Iachach:<br>ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026.<br><br>Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Bwriad y strategaeth hon yw ei bod yr un mor berthnasol i bawb ac felly ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai'n cael unrhyw effaith benodol ar grefydd neu gred neu ddiffyg cred person. | Dadansoddiad yn:<br><br>Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cymru Iachach:<br>ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026. | Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |
| Rhyw / Rhywedd | Bwriad y strategaeth hon yw y byddai'r un mor berthnasol i bawb ac felly ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai'n cael unrhyw effaith benodol ar ryw yr unigolyn. | Dadansoddiad yn:<br><br>Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Asesiad o’r Effaith ar Iechyd.<br><br>Cymru Iachach:<br>ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026. | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Bwriad y strategaeth hon yw y byddai'r un mor berthnasol i bawb ac felly ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai'n cael unrhyw effaith benodol ar gyfeiriadedd rhywiol person. | Dadansoddiad yn:<br><br>Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Asesiad o’r Effaith ar Iechyd.<br><br>Cymru Iachach:<br>ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026. | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Bwriad y strategaeth hon yw y byddai'r un mor berthnasol i bawb ac felly ni ragwelir ar hyn o bryd y byddai'n cael unrhyw effaith benodol o ran a yw person yn briod neu | Dadansoddiad yn:<br><br>Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Asesiad o’r Effaith ar Iechyd. | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mewn partneriaeth sifil. | Cymru Iachach:<br>ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026. | rheoliadau i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Bydd y diwygio yn sicrhau bod practisau optometreg yn gallu ymateb yn brydlon i bob claf, gan gynnwys plant.<br><br>Mae defnyddio gwasanaethau optometryddion o oedran ifanc yn annog presenoldeb arferol ac yn cysylltu ag addysg a datblygiad cymdeithasol.<br><br>Bydd mwy o fynediad i wasanaethau optometreg o fudd i blant a phobl ifanc. | Dadansoddiad yn:<br><br>Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y dyfodol ac Asesiad o’r Effaith ar Iechyd.<br><br>Cymru Iachach:<br>ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026. | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |
| Aelwydydd incwm isel | Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol oherwydd gwell mynediad at wasanaethau ehangach gofal iechyd llygaid ac oherwydd y bydd gwerth talebau optegol yn cael ei ddiweddaru, gan sicrhau offer sylfaenol heb ragor o gost, ar draws pob holl ystod presgripsiwn, i gleifion cymwys. | Dadansoddiad yn:<br><br>Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Asesiad o’r Effaith ar Iechyd.<br><br>Cymru Iachach:<br>ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026. | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |

**Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig**
A ydych yn credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch yn lliniaru effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| | Bwriad y strategaeth hon yw ei bod yr un mor berthnasol i bawb a'r hyn sy'n ganolog i'r polisi yw cynyddu mynediad at wasanaethau ac yn arbennig ar gyfer pobl agored i niwed a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig, a thrwy hynny greu effaith gadarnhaol ar hawliau dynol pobl yn uniongyrchol ac yn gyffredinol. | Dadansoddiad yn:<br><br>Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru: Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol ac Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.<br><br>Cymru Iachach:<br>ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.<br><br>Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026. | Dim angen lliniaru. Fodd bynnag, byddwn yn monitro'r gwaith o weithredu'r gwasanaeth newydd a'r model ariannol am 12 mis ar ôl y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym. Bydd y model newydd hwn yn cael ei fonitro yn erbyn y targedau sydd wedi'u gosod yn y Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol. |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx LlCxxxxxxxxx ISBN Digidol xxxxxxxxx